

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 7fed Mai, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Alun Jenkins (Cadeirydd), Eluned Evans, Jane Hopkins, Phil Lloyd, Elise Powell, James Raw, Cyng. Rhodri Davies

1. YMDDIHEURIADAU

Rhodri Jenkins

2. MATERION PERSONOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddigwyddiad trasig a ddigwyddodd ym Mhontarfynach yn ddiweddar ble collodd un o weithwyr Cyngor Sir Ceredigion sef Mr. Stephen Cuddy, ei fywyd drwy ddamwain lori sbwriel/ail-gylchu. Adroddodd y Clerc y danfonwyd lythyr o gydymdeimlad ar ran y Cyngor Bro at rieni y diweddar Mr. Cuddy. Danfonwyd hefyd garden o wellhad buan at ei gyd-deithiwr a ddioddefodd anafiadau yn ystod y ddamwain.

3. COFNODION 2 Ebrill, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Safle We:

Cyfeiriodd y Clerc bod angen diweddarau y safle we ar gost o £35.00 i Alan Cole. Gobeithir yn y man bydd y Clerc yn medru ymgymryd â'r gwaith ond gan fod y safle yn newydd cytunwyd am y tro i dalu y swm uchod.

Cynigiwyd y taliad o £35.00 gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

(b) Cyflymdra tu allan i'r Ysgol ym Mhontarfynach

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y clerc yn cysylltu gyda swyddog perthnasol y Cyngor Sir i ymholi beth yw'r sefyllfa gyfredol am gyflymdra tu allan yr ysgol ac ym mhentref Pontarfynach. Derbyniodd y Clerc daflennu wrth Gyngor Sir Ceredigion yn cyfeirio at gynllun 'Speed Watch Cymunedol', ble byddai gwirfoddolwyr o'r gymuned leol yn cael eu hyfforddi i gadw llygad ac adrodd i'r heddlu unrhyw gerbyd fyddai'n gôr yrru drwy pentrefi. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd doddi'r daflen ar hysbyswrdd yn gofyn am wirfoddolwyr lleol.

Cyfeiriodd James Raw fod y cebl mesur cerbydau/cyflymdra sydd wedi eu doddi ar draws y ffordd mewn mannau yn yr ardal yn torri yn aml. Adroddodd ei fod yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir pan mae'n gweld rhain wedi torri gan nad ydynt yn gweithio a chofnodi yn effeithiol ar adegau fel hyn.

Cyfeiriodd y Cyng Rhodri Davies bod y Cyngor Sir yn mynd i ail-edrych o fewn y mis nesaf ar matrices sefyllfa graenu y ffyrdd adeg tywydd garw.

(c) Toiledau ym Mhontarfynach

Mewn ymholiad a ddanfonwyd at Gyngor Sir Ceredigion am yr awgrym i leoli toiledau porta loos ym Mhontarfynach dros y Gaeaf derbyniwyd ymateb gan Jasmine Wilson, Swyddog Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig y sylwadau canlynol:

Byddid angen cais cynllunio a thalu trethu ar yr unedau. Byddai angen sicrhau toiledau ar gyfer yr anabl a bod yr unedau yn cael eu gwaghaus yn rheolaidd er mwyn sicrhau iechyd

a diogelwch. Mae toiledau o'r fath yn denu fandaliaeth a cael eu heffeithio gan dywydd garw.

Deallir fod y Cyngor Sir wedi cysylltu gyda busnesau lleol eisoes ond gofynnwyd yn yr ymateb yma a fyddai'r Cyngor Bro yn medru cysylltu gyda busnesau lleol i ymholi a fyddid yn medru defnyddio cyfleusterau hwy dros gyfnod y Gaeaf. Nodir yr ymateb hefyd ei bod wedi bod yn amhosibl i ddenu glanhawyr lleol i'r toiledau, yn sgil hynny mae'r gost o redeg y toiledau yn cynyddu yn sylweddol gan fod angen gwneud taliad teithio i'r glanhawyr.

Cafwyd trafodaeth ar yr uchod a nodwyd gan fod swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion wedi cysylltu eisoes gyda busnesau lleol nid oedd pwrpas i aelodau'r Cyngor Bro barhau gyda'r drafodaeth.

(ch) **Eisteddfod Cwmystwyth**

Yn dilyn derbyn cadarnhad y medrai'r aelodau i gyd i drafod cytunwyd i drosglwyddo rhodd o £50.00 i Eisteddfod Cwmystwyth gan y Cyngor Bro.

Cynigiwyd y taliad gan Jane Hopkins ac eiliwyd gan Phil Lloyd.

(d) **Blwch yr AA**

Cyfeiriodd Alun Jenkins ei fod ef wedi dechrau tacluso y bocs ac o amgylch y lleoliad. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o leoli Plac er cof am Lewis Lewis, Minffordd a drefnodd ac adeiladodd Bocs yr AA ym Mhontarfynach. Y Clerc i ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu yr awgrym hwn.

5. **ETHOL SWYDDOGION AM Y FLWYDDYN 2015/16**

Yn dilyn y drefn arferol o ethol swyddogion yn eu tro penderfynwyd ar y canlynol:

Cadeirydd - Etholwyd Rhodri Jenkins yn Gadeirydd am y Flwyddyn

Is-Gadeirydd - Etholwyd James Raw yn Gadeirydd am y Flwyddyn

Swyddog Cyllid Etholwyd Alun Jenkins yn Swyddog Cyllid am y Flwyddyn

6. **CYLLID**

(a) Derbyniwyd swm praesept am 2015/16 o £3,500.

(b) Yswiriant

Adroddodd y Clerc fod angen adnewyddu yswiriant y Cyngor Bro cyn y 1af o Fehefin. Derbyniwyd swm adnewyddi o £659.54 wrth Gwmni AON. (Deallir fod y cwmni wedi newid polisi eleni ac fod y swm adnewyddu yn bolisi cyffredinol ar gyfer cynghorau bro a thref i gyd).

Derbyniwyd dyfynbris am yswiriant gan gwmni Zurick o £422.74.

Cytunwyd y byddai'r clerch yn ystyried y ddau bris ac mewn cysylltiad gyda'r Cadeirydd yn mynd am y polisi mwyaf ffafriol.

7. **GOHEBIAETH**

(a) Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Gwahoddiad gan Ysgrifenyddes Cylch Meithrin Penllwyn i aelodau o'r Cyngor Bro i ymuno mewn diwrnod agored i ddathlu Penblwydd y Cylch Meithrin yn 40 oed ac agoriad swyddogol i leoliad newydd y Cylch Meithrin mewn Caban ar dir Ysgol Penllwyn.

(b) Manylion wrth yr Arolygiaeth Gynllunio fod newid wedi bod i amserlen yr Arolygiaeth Gynllunio i ystyried cais am Fferm Wynt gan Mynydd y Gwynt Ltd yn Sweet Lamb Rally Complex, Llangurig.

- (c) Manylion am gyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymwneud â 'Sgwrs Iach - Let's Talk Health'. Cyfarfodydd i rannu gwybodaeth a gwrando ar y cyhoedd ar sut i wella y gwasanaeth iechyd.
- (ch) Agenda Cyfarfod Cylch Ceredigion o Un Llais Cymru a gynhaliwyd ar y 29ain Ebrill.
- (d) Ombwdsmon - Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad. Deallir fod yr Ombwdsmon yn derbyn nifer o fân gwynion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned a bod swyddfa'r Ombwdsmon yn awr wedi diwygio y Côt Ymddygiad i sicrhau dilyniant a phenderfyniad i archwilio cwynion fwy difrifol.
- (dd) Gohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion parthed Safoni enwau lleoedd yn sicrhau fod y Cyngor Bro yn hapus gyda'r geiriad Pontarfynach/Devil's Bridge fel enw Swyddogol y Pentref. Cadarnhawyd y trefniant fel a nodwyd yn y cyfarfod ar y 25ain o Fedi, 2014.

Trafodwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i ddodi arwydd swyddogol Rhos Perian yng Nghwmystwyth

- (e) Swyddfa Post Pontarfynach:
Yn dilyn ymholiadau peth amser yn ôl i'r Swyddfa Bost am sefyllfa y Gwasanaeth Swyddfa'r Post ym Mhontarfynach wedi i'r siop leol cael eu chau derbyniwyd ymateb gan Karen Hulse, Gofal Cwsmeriaid. Nodwyd fod y Swyddfa Bost yn parhau i ystyried cael gwasanaeth allgymorth yn yr ardal ond hyd yn hyn nid oes lleoliad na datrysiaid posibl wedi ei dderbyn, ond byddid yn agored i unrhyw awgrymiadau a fyddai gan y Cyngor Bro i ddatrys y broblem. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu nol yn datgan gwerthfawrogiad yr ymateb ond gan nodi hefyd fod trigolion yr ardal wedi gorfod gwneud trefniadau amgen gan fod y Gwasanaeth wedi dirwyn i ben yn yr ardal.
- (f) Yn dilyn cyfarfod gyda Cynghorau Bro cyfagos derbyniwyd ymateb i lythyr wrth Gyngor Bro Trawsgoed at Ms Bronwen Morgan, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion. Nodir fod y Cyngor Sir wedi nodi y pwyntiau a godwyd sef:
Nad oedd un cyfarfod blynyddol rhwng y Cyngor Sir a Chynghorau Bro a Thref yn ddigonol gan fod materion gwahanol gan y cynghorau yn y wlad a'r rhai trefol.
Nad oedd y penderfyniad am ddodi halen mewn un ardal a'r llall adeg tywydd garw ddim i wneud â diffyg cyllid, ond mai matrices oedd yn penderfynu i ffaith i graenu neu beidio.
Bod angen mwy o amser i drafod problemau ardaloedd yn hytrach na chael cyflwyniad hir ar gyllid y Cyngor Sir.
- (ff) Gohebiaeth wrth Gyngor Sir Ceredigion mewn ymateb i ymholiadau blaenorol o'r Cyngor Bro yn gofyn am 'Arwyddion Dim Sat Nav' yn ardal Trisant a Phontarfynach ac hefyd arwyddion 'Araf - Cornelu Peryglus' ar y ffordd o Bontarfynach i Rhosygeall. Nodir ni fydd swyddogion yn ystyried y ceisiadau ar hyn o bryd gan eu bod yn canolbwyntio ar gynnal adolygiad o'r terfynau cyflymder ar Ffyrdd Sirol yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru.
- (g) Bwriad i wro Llwybr Ceffyl 20/46 Aberbodcoll 2014
Manylion gan Gyngor Sir Ceredigion bod yr uchod wedi dod i rym ar y 15fed o Ebrill, 2015 ond pe byddai unrhyw wrthwynebiad bod hawl i wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i'r dyddiad uchod.

7. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Cyfeiriwyd fod loriâu trwm yn teithio sawl gwaith y dydd nol a mlaen ar y ffordd o safle gweithfeydd mwyn Frongoch i Abermagwr ac wedi achosi niwed difrifol i ochr y ffordd sy'n tynnu mwd o'r cloddiau ar draws y ffordd mewn manau sy'n gwneud gyrru yn beryglus. Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i adrodd ar y broblem.
- (b) Adroddwyd fod angen sylw ar giat mochyn ar y llwybr o Bontarfynach i Borth wrth bynglo Fronhaul wrth Bont Nantfawnog. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (c) Cyfeiriodd Jane Hopkins y cynhelir Noson o Bingo ar yr 28ain o Fai, 2015 yng Nghaffi'r Woodlands.

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 4ydd o Fehefin, 2015 yn Ysgol Mynach.